



YSGOL DYFFRYN CONWY

Perfformiadau'r

CLWB DRAMA

DRAMA CLUB

Performances

NEUADD YSGOL DYFFRYN CONWY



TAFIAD CARREG

TRWBWL : Modlen Alun

Rwyf wedi bod yn rhan o glwb drama ers blwyddyn 7. Rwyf wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o

berfformiadau gwahanol. Y peth rwyf wedi mwynhau fwyaf yw y sioe

Nadolig "Peter Pan." Cafon ni hwyl yn creu gwisgoedd ac roeddwn yn hoff o fod yn un o'r Indiaid a cael

creu dawns i gyd-fynd â'r olygfa.

Rwyf yn mwynhau bod yn rhan o Clwb drama, ac mae wedi fy helpu hefo hunan hyder wrth berfformio.



ROBERTS : Elenid Alun

Rwyf wedi bod yn clwb drama ers 2 flynedd ac wedi dysgu nifer o

bethau diddorol. Fy hoff beth oedd paratoi a chael ymarfer at heno.

Rwyf wrth fy modd yn cael gwneud pethau fel gwneud briwiau cogio yn

ogystal â'r perfformio. Mae'r Clwb Drama wedi rhoi llawer o gyfleoedd

i mi fel Peter Pan, Creu ffilmiau, Sgets Y 'dolig a llawer mwy.



WIWER : Eiliw Jones

Rwyf wedi bod yn mynd i'r clwb drama ers dwy flynedd. Rwyf wedi bod yn gwneud

llawer o bethau diddorol gan gynnwys dysgu llawer o sgiliau newydd. Fy hoff beth yn y clwb drama oedd cael dysgu dramâu fel 'Taflïad Carreg' ac rwyf yn cael cyfle i'w berfformio fel grŵp heno. Credaf fy mod wedi magu llawer o hyder wrth fod yn y clwb drama ac wedi mwynhau gan fy mod yn hoff iawn o actio.



JONES: Efa Celyn Davies

Rwyf wedi bod yn rhan o'r clwb drama ers dwy flynedd bellach. Mae wedi bod yn hwyl, ac rwyf wedi dysgu llawer o sgiliau a thechnegau gwahanol. Rwyf wedi magu hyder wrth berfformio mewn sawl cyngerdd gan gynnwys bod yn un o gymeriadau yn y cyflwyniad dramatig buddugol y flwyddyn ddiwethaf yn yr Eisteddfod. Fy hoff

brofiad gan y clwb drama oedd cael gwneud y gwisgoedd ar gyfer y sioe gerdd yr ysgol yn ystod y Nadolig. Roddodd Miss Japheth llawer o cyfleoedd i ni i wneud llawer o bethau gwahanol a hoffwn ddiolch yn fawr iddi am hynny. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau heno.



CHWARA' PLANT

LUCY / MAM : Elliw Ford

Fel aelod o'r clwb drama, rwyf wedi cael amryw o brofiadau sydd am aros gyda'f am weddill fy mywyd— cael perfformio ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd, cymryd rhan yn y sioe ysgol, Peter Pan a chael perfformio'r ddrama rydych chi am weld heno 'ma. Roedd y ddrama hon (chwarae plant) yn un o'r dramâu mwyaf hwyl i berfformio gan ei bod ni'n blant bach ac roedd rhaid portreadu hyn mewn ffordd glir a deal-ladwy. Rwyf yn mwynhau'r clwb drama oherwydd mae cyfleoedd unigryw ar gael i wneud amryw o bethau hwylus.



GWENIDOG / DAD : Heledd Hughes

Ers blwyddyn saith rwyf wedi bod yn aelod o glwb drama'r ysgol. Ymunais i â'r clwb yn bennaf oherwydd fy mod eisiau cymryd drama fel pwnc TGAU. Credaf fod ymuno â'r clwb yn gyfle gwych i fagu hyder yn ogystal â dysgu sgiliau allweddol megis osgo, lefelu, tŷn, traw, ystum a byrfyfyrio. Un o'm perfformiadau cyntaf gyda'r clwb oedd ar lwyfan Eisteddfod Yr Urdd lle perfformiais ymgom a chyflwyniad dramatig. Cawsom 1af allan o Gymru gyfan gydag ein cyflwyniad dramatig, roedd hyn yn brofiad bythgofiadwy a cyffrous iawn!!!





REBECCA : Gwen Arfon

Mae'r clwb drama wedi bod yn glwb sydd wedi rhoi llawer o gyfleoedd i mi, sydd yn cynnwys yr ymgom a wnaethom ni ym mlwyddyn 7, hwn oedd un o'r perfformiadau cyntaf i mi wneud yn yr ysgol ac roedd yn un bythgofiadwy. Roedd perfformio o flaen cynulleidfa yn rhywbeth nad oeddwn i yn hoff o wneud ac roeddwn i yn gweld hi'n anodd cyfleu'r cymeriad yr oeddwn i yn chwarae. Ond mae'r clwb wedi fy helpu i fwynhau ac i gael hyder wrth berfformio o flaen cynulleidfa. Rwyf eisiau diolch i Miss Japheth am yr holl waith caled mae hi wedi ei roi i'r clwb drama ac i bob prosiect arall rydym wedi ei wneud. Rwyf yn gobeithio i barhau hefo

drama ac i fwynhau bob cyfle y caf i.

YR YMARFER

BETHAN : Elin Badger-Watts

Rwyf wedi bod yn rhan o'r clwb drama ers blwyddyn, ac rwyf wedi dysgu llawer mwy nag oeddwn yn gwybod cyn hynny. Rydw i wedi cael hwyl hefo chwarae gemau a bod yn Indian yn y sioe Peter Pan. Mae hynny wedi codi fy hyder yn fawr iawn. Mi wnes i gychwyn dod i'r clwb drama oherwydd roeddwn i eisiau codi fy hyder a dwi wedi diolch i Miss! Felly **DIOLCH YN FAWR MISS!** Chi ydi'r athrawes gorau. Gobeithio byddaf yn gallu dysgu mwy eto flwyddyn nesaf!

RHIANNON : Holly Carpenter

Mae'r Clwb Drama wedi bod yn llawer o hwyl dros y flwyddyn. Ar y wythnos cyntaf wnes i dechrau y clwb roedd pawb yn groesawgar, ac roedd yn lawer o hwyl. Yn diweddard mae y clwb drama wedi fod yn ymarfer at perfformiadau. Mae y perfformiad wedi fod yn hwyl i ymarfer hefo Nel Davies a Elin B-Watts, ac dwi wedi creu ffrindiau newydd ers dechrau y clwb. Rydw i wedi cael cyfarwyddo pobl eraill a actio fy hun. Dwi hefyd eisiau diolch i Miss Japheth am redeg y clwb pob wythnos heb brec ac yn delio hefo yr holl blant sydd isio dysgu mwy o ddrama.

DIOLCH YN FAWR IAWN X



ELI : Nel Grug

Rwyf wedi bod yn rhan o'r clwb drama ers dechrau'r flwyddyn . Rwyf yn falch iawn fy mod wedi ymuno 'r clwb oherwydd fy mod wedi mwynhau yn fawr iawn , ac yn teimlo fod fy hyder wedi gwella ers imi ymuno. Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd. Rwyf wedi cael creu gwisgoedd, colur llwyfan a dysgu sut mae cyfarwyddo! Rwyf yn edrych ymlaen i Mis Medi er mwyn cael cario ymlaen a'r clwb!



Also a big thank you to Ethan, Charlotte, Amber and Hannah for all their hard work this year!

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi hedfan heibio gyda'r Clwb Drama yn cyfarfod yn wythnosol ers mis Medi gan weithio ar amrywiol agweddau o'r byd theatr. Pleser yw cael cwmni'r disgyblion cydwybodol a gweithgar yma. Maent yn fwrlwm o egni a brwdfrydedd. Hoffwn ddiolch o waelod calon iddynt am eu ffyddlondeb a'u holl waith caled. Hoffwn hefyd ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth gyson.
Dyma gyfle i chi gael blas ar eu talent heno.
Mwynhewch!

Llio Japheth